



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

29 Mehefin 2016

Annwyl ,

ATISN 10482 – Gwybodaeth am swyddi

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 2 Mehefin am wybodaeth am swyddi.

Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani wedi'i hamgáu.

a) Nifer y swyddi gweigion/newydd a hysbysebwyd yn fewnol gennych ers 30 Mawrth 2016; **85**

(b) Nifer y swyddi gweigion/newydd a hysbysebwyd yn allanol gennych ers 30 Mawrth 2016; **5**

(c) Cyfanswm y swyddi gweigion/newydd a hysbysebwyd gennych ers 30 Mawrth 2016; **90**

(ch) Copi o bob 'asesiad angen am sgiliau yn y Gymraeg' yr ydych wedi'u cynnal mewn perthynas â swyddi gweigion/newydd, yn unol â Safon 136 a osodwyd arnoch yn Hysbysiad Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg;

(d) Nifer y swyddi gweigion/newydd a hysbysebwyd yn fewnol gennych ers 30 Mawrth 2016 â 'sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol' ar eu cyfer; **7**



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

CentralDepartments-FOI/DP@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk

(dd) Nifer y swyddi gweigion/newydd a hysbysebwyd yn allanol gennych ers 30 Mawrth 2016 â 'sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol' ar eu cyfer; **0**

(e) Nifer y swyddi gweigion/newydd a hysbysebwyd yn fewnol gennych ers 30 Mawrth 2016 a ddynodwyd fel swyddi y mae 'angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'; **0**

(f) Nifer y swyddi gweigion/newydd a hysbysebwyd yn allanol gennych ers 30 Mawrth 2016 a ddynodwyd fel swyddi y mae 'angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'; **0**

(ff) Nifer y swyddi gweigion a hysbysebwyd yn fewnol gennych ers 30 Mawrth 2016 â 'sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol' ar eu cyfer; **12**

(g) Nifer y swyddi gweigion a hysbysebwyd yn allanol gennych ers 30 Mawrth 2016 â 'sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol' ar eu cyfer; **2**

(ng) Nifer y swyddi gweigion a hysbysebwyd yn fewnol gennych ers 30 Mawrth 2016 nad oedd 'sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol' ar eu cyfer; **66**

(h) Nifer y swyddi gweigion a hysbysebwyd yn allanol gennych ers 30 Mawrth 2016 nad oedd 'sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol' ar eu cyfer. **3**

Mewn perthynas ag ch), amgaeaf restr ar wahân sy'n cynnwys yr holl asesiadau sgiliau oedd wedi'u cyflawni mewn perthynas â Safon 136 erbyn dyddiad eich cais. Fe sylwch fod mwy o asesiadau wedi'u rhestru nag sydd swyddi wedi'u hysbysebu, gan nad ydym yn hysbysebu'n holl swydd newydd/gwag. Rwyf felly wedi cynnwys yn y rhestr swydd newydd/gwag a lenwyd drwy ddulliau eraill.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir